Uned Cofnodion Troseddol
Criminal Records Unit

CYNLLUN FETIO A GWAHARDD
YR AWDURDOD DIOGELU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 er mwyn ymateb i argymhelliad allweddol gan Ymchwiliad Bichard, sef y dylid creu cynllun cofrestru a fyddai'n atal y bobl hynny yr ystyrir eu bod yn anaddas rhag cael mynediad at blant neu oedolion agored i niwed drwy gyfrwng eu gwaith. Yn sgil y Ddeddf cafwyd caniatâd i sefydlu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a chyflwyno gwell Cynllun Fetio a Gwahardd, sy'n galluogi gwahardd y bobl hynny y gwyddys eu bod yn anaddas rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed ar y cyfle cynharaf posibl.

Beth yw diben y cynllun?
Cynorthwyo i atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phobl agored i niwed.

Pryd y bydd y cynllun yn cael ei lansio?
Fe lansiodd ar 12 Hydref 2009 ac yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y 5 mlynedd nesaf.

Ar bwy y bydd y cynllun yn effeithio?
Ar unrhyw wirfoddolwr neu weithiwr cyflogedig sy'n gweithio mewn mathau penodol o weithgaredd sy'n cynnwys grwpiau agored i niwed.

Ar ba weithgareddau y bydd y cynllun yn effeithio?
Ar unrhyw weithgaredd sy'n cael ei ddiffinio fel 'gweithgaredd a reoleiddir' dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf.

Beth yw gweithgaredd a reoleiddir?
Unrhyw weithgaredd o natur benodol sy'n cynnwys cyswllt gyda phlant neu oedolion agored i niwed yn aml, yn ddwys a/neu dros nos (megis dysgu, hyfforddi, gofalu, goruchwylio, cynghori, trin a chludo).

Unrhyw weithgaredd mewn lle penodol sy'n digwydd yn aml, yn ddwys a/neu dros nos (megis ysgolion, ysbytai plant, cartrefi gofal preswyl).

Maethu a gofal plant, a rhai swyddi o gyfrifoldeb sydd wedi'u diffinio (megis llywodraethwyr ysgol ac ymddiriedolwyr rhai elusennau).
*Dwys – 4 diwrnod new fwy mewn mis neu dros nos
Aml – 1 achlysur new fwy yr wythnos

Beth fydd yr effaith arnaf fi?
Pan ddaw'r cynllun i'w lawn rym, os oes arnoch eisiau gweithio gyda grwpiau agored i niwed bydd angen ichi wneud cais dan y cynllun i gael eich cofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol cyn y gallwch gychwyn gweithio. Os mai cyflogwr ydych, bydd angen ichi gadarnhau bod unigolyn wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod cyn caniatáu i'r person hwnnw ymwneud â gweithgaredd a reoleiddir.

A fydd angen Datgeliad Manylach arnaf o hyd, neu a allaf ddibynnu ar y system newydd?
Mae Cynllun Fetio a Gwahardd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol yn gweithio ochr yn ochr â system bresennol gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), ond nid yw'n cymryd lle'r system honno.

O ran gweithgaredd a reoleiddir, mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod ac mae'n rhaid i'r cyflogwr wirio statws yr unigolyn gyda'r Awdurdod. Gall cyflogwyr fynd ar-lein i wirio a yw'r unigolyn wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod, sy'n golygu nad yw'r Awdurdod wedi canfod dim rheswm hysbys pam na ddylai'r ymgeisydd weithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed.

Fodd bynnag, nid yw cofrestriad gyda'r Awdurdod yn gwarantu record droseddol 'lân' ac mae'n bosibl y bydd ar sefydliadau eisiau gwneud cais am Ddatgeliad Manylach o hyd er mwyn cael yr hanes troseddol llawn. Gallai hyn fod yn bwysig er mwyn asesu a yw unigolyn yn gwbl addas ar gyfer swydd benodol, ac mewn rhai sectorau bydd yr angen i gael datgeliad hefyd yn parhau i fod yn orfodol.

Beth newidiodd ar 12 Hydref 2009?
Dwy restr newydd o unigolion sydd wedi'u gwahardd gan yr Awdurdod wedi hamnewid rhestrau POCA a POVA a Rhestr 99. Gellir gwirio'n erbyn rhestrau'r Awdurdod o unigolion sydd wedi'u gwahardd – sef y rhestr ar gyfer plant a'r rhestr ar gyfer oedolion agored i niwed – yn

rhan o wiriad Datgeliad Manylach y CRB. Ni fydd Datgeliadau Safonol ar gael mwyach ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio gyda grwpiau agored i niwed ac mae cwmpas y gwiriadau Manylach wedi'i ehangu i gynnwys yr holl weithgareddau y mae'r Cynllun Fetio a Gwahardd yn berthnasol iddynt. Bydd dyletswydd ar gyflogwyr, gwasanaethau cymdeithasol a chyrff rheoleiddio proffesiynol i gyfeirio at yr Awdurdod unrhyw wybodaeth am unigolion a allai achosi risg a bydd rhai cosbau yng nghyswllt unigolion sydd wedi'u gwahardd yn dod i rym.

Beth fydd yn newid ym mis Gorffennaf 2010?
Bydd unigolion yn gallu gwneud cais i'r Cynllun Fetio a Gwahardd i gael eu cofrestru gyda'r Awdurdod os oes arnynt eisiau gweithio neu wirfoddoli gyda grwpiau agored i niwed. Gellir gwneud hyn gyda'r cyflogwr yn sgil cynnig swydd neu waith gwirfoddol neu gall unigolion fynd ati'n rhagweithiol i'w wneud oherwydd eu bod yn hunangyflogedig neu'n ystyried gweithio gyda grwpiau agored i niwed yn y dyfodol.

Bydd ffurflen gais ar y cyd newydd yn galluogi pobl i wneud cais i gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol a/neu am wiriad CRB, os yw cyflogwr yn rhan o'r cais. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn gwneud y gwaith gweinyddol ar ran yr Awdurdod ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Awdurdod er mwyn iddo'i defnyddio yn sail i'w benderfyniad ynghylch a ddylid gwahardd ynteu gofrestru'r unigolyn ar y Cynllun Fetio a Gwahardd. Wedi i unigolyn gael ei gofrestru, bydd yn cael ei fonitro'n barhaus a bydd ei statws dan y Cynllun yn cael ei ailasesu os daw unrhyw wybodaeth newydd amdano i'r amlwg.

Bydd cyflogwyr yn gallu gwirio statws cofrestriad person gyda'r Awdurdod **am ddim** ar y we (gyda chaniatâd yr unigolyn) a gallant gael gwybod am unrhyw newidiadau i statws cofrestriad y person hwnnw gyda'r Awdurdod.

Beth fydd yn newid ym mis Tachwedd 2010?
Bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i unigolion gofrestru gyda'r Awdurdod os oes arnynt eisiau gweithio neu wirfoddoli gyda grwpiau agored i niwed. Ceir cyfnod cyflwyno graddol o bum mlynedd yn achos gweithwyr a gwirfoddolwyr sydd eisoes yn gweithio.

A oes angen i'm holl staff a gwirfoddolwyr sydd mewn swyddi a reoleiddir gael eu cofrestru gyda'r Awdurdod erbyn mis Tachwedd 2010?
Nac oes. Mae'r gofyniad cyfreithiol o fis Tachwedd 2010 yn effeithio ar unrhyw unigolion sy'n newydd i'w swyddi/i'r gweithlu neu sy'n newid eu rôl o fewn gweithgaredd a reoleiddir. Bydd pawb arall sy'n ymwneud â gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu cynnwys yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd categori arall o weithgaredd a reolir, a fydd yn cynnwys gwaith ategol mewn lleoliadau GIG, yn cael ei gynnwys yn raddol ar ddiwedd y cyfnod.

Beth fydd y gost?
Bydd angen un taliad o £64 ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Fodd bynnag, bydd **am ddim** i wirfoddolwyr (oni bai eu bod, yn nes ymlaen, yn symud i waith cyflogedig, ac os felly bydd gofyn iddynt dalu).

Beth yw'r ddyletswydd i gyfeirio?
Bydd dyletswydd ar unrhyw gorff sy'n darparu gweithgaredd a reoleiddir i gyfeirio gwybodaeth berthnasol i'r cynllun os oes pryder ynghylch niwed neu berygl o niwed i blant neu oedolion agored i niwed. Mae gan dimau amddiffyn oedolion/plant yr awdurdodau lleol; cyrff proffesiynol a chyrff goruchwylio sy'n cael eu henwi yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 hefyd ddyletswydd i gyfeirio.

Ble allaf fi gael rhagor o wybodaeth?
Gwybodaeth gryno iawn am yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a Datgeliadau CRB a geir yma. Am ragor o wybodaeth ewch i:

- **www.isa-gov.org.uk**
- **www.crb.gov.uk**

Mae Uned Cofnodion Troseddol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn wasanaeth dwyieithog i gyrff gwirfoddol sy'n cynnig mynediad AM DDIM* i Ddatgeliadau CRB a chofrestriadau gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, ynghyd â chyngor a chanllawiau cynhwysfawr.

www.wcva-cru.org.uk
☎ 0800 0 197 391
cru@wcva.org.uk

*****Ni chodir ffi weinyddol, ond bydd angen talu costau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol lle bo hynny'n berthnasol.